COMISIYNYDD
HEDDLU A THROSEDDU
DYFED-POWYS
POLICE AND CRIME
COMMISSIONER

REPORT / SUMMARY DECISION SHEET

PURPOSE: PENDERFYNIAD GAN Y COMISIYNYDD – CYFEIRNOD. DLI 038

Timing: Arferol

Teitl: Dod â chytundeb InPhase i ben

Categori Penderfyniad/ Maes Busnes a effeithir: Llywodraethu

Crynodeb Gweithredol:

Ym mis Rhagfyr 2014, cymerwyd penderfyniad (CS 08-05-2015) i gaffael arf rheoli busnes a pherfformiad. Lluniwyd manyleb ar y cyd rhwng SCHTh a'r Heddlu i gaffael system a fyddai'n cefnogi busnes SCHTh a darparu system cudd-wybodaeth busnes ar gyfer dadansoddi, adrodd a chyflwyno data troseddu, plismona ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Yn dilyn ymarfer tendr agored a gyflawnwyd ym mis Ebrill a mis Mai 2015, rhoddwyd cytundeb 3 blynedd i InPhase Cyf, gyda dewis o hyd at 2 gyfnod estyniad blynyddol. Yn seiliedig ar drwydded meddalwedd 3 blynedd, y cyfanswm o ran cost ym mlwyddyn 1 oedd £46,152. Mae'r costau ar gyfer blynyddoedd 2 a 3 o £4,942 y flwyddyn yn ymwneud â'r ffi flynyddol ar gyfer cymorth cynnal a chadw.

Yn ystod 2015/16, datblygwyd a gweithredwyd cais InPhase yn unol â dyheadau'r Comisiynydd blaenorol i ddatblygu ystorfa ganolog ar gyfer sawl ffynhonnell data meintiol ac ansoddol i gefnogi rheoli perfformiad plismona a chyfiawnder troseddol. Hefyd, disgwyliwyd mai InPhase fyddai'r unig ddatrysiad ar gyfer penderfyniadau a thasgio lleol ar gyfer SCHTh a'r Heddlu.

Ar ôl cael ei ethol yn Gomisiynydd Heddlu a Throseddu yn 2016, cychwynnodd Mr Llywelyn newid sylweddol yn y ffordd y mae'n dal y Prif Gwnstabl i gyfrif am berfformiad ac o ran sut y mae busnes SCHTh yn bwydo i mewn i'r broses honno. Ystyrir bod y feddalwedd cudd-wybodaeth busnes y mae'r heddlu wedi bod yn ei defnyddio ers nifer o flynyddoedd yn bodloni gofynion gweithredol yr Heddlu i sicrhau bod y rhai a fydd yn ei defnyddio yn y pen draw yn medru trin, turio a dadansoddi data trosedd cymhleth yn gyflym a hawdd.

Mae galluoedd ar gyfer rheoli swyddogaethau gweinyddol allweddol wedi'u datblygu drwy Sharepoint, sef rhaglen ar y rhyngrwyd a ddefnyddir ar draws yr Heddlu a SCHTh sy'n integreiddio â Microsoft Office, gan ddarparu ymagwedd gyson tuag at reoli busnes ar draws meysydd busnes SCHTh a rhwng SCHTh a'r Heddlu.

Mae'r tair rhaglen angen adnoddau staff SCHTh a/neu'r Heddlu i sicrhau bod y wybodaeth a'r data'n ddiweddar a chywir ar gyfer y rhai fydd yn eu defnyddio. Mae'r feddalwedd cudd-wybodaeth busnes presennol a Sharepoint yn cynnal gofynion busnes strategol a gweithredol yr Heddlu a SCHTh.

Y ffi cynnal flynyddol cost flynyddol derfynol ar gyfer InPhase yw £4,942 y flwyddyn. Hefyd, mae costau anuniongyrchol mewn perthynas â'r adnodd staff parhaus sydd angen er mwyn diweddaru'r wybodaeth a'r data o fewn InPhase.

Gan hynny, o ystyried y datblygiadau uchod, ystyrir y bydd yr adnoddau sydd angen er mwyn cynnal InPhase yn gorbwyso'r manteision a enillir gan SCHTh a'r Heddlu yn ystod blwyddyn olaf y cytundeb.

Argymhelliad:

Bod y Comisiynydd yn rhoi tri mis o rybudd i ddod â'r cytundeb gydag InPhase i ben o 28 Mehefin 2017.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys

I confirm I have considered whether or not I have any personal or prejudicial interest in this matter and take the proposed decision in compliance with the Nolan Principles for Conduct in Public Life.

The above request has my approval / does not have my approval / I note the information contained within the report (delete as appropriate)

Llofnod: Dafydd Llywelyn **Dyddiad:** 11. 5. 2017